# Brîff UCAC Briefing

# Asesiadau Athrawon, Safoni, Cymedroli a Dilysu/Gwirio Allanol 2015-16


## Crynodeb

Mae asesiadau athrawon, prosesu safoni mewnol a chymedroli clwstwr wedi'u hen sefydlu yn system addysg Cymru.

Yr elfen fwyaf newydd yn y prosesau hyn yw'r Rhaglen Wirio/Dilysu Genedlaethol, sydd wedi bod yn ei lle ers dwy flynedd bellach.

Er y gwelwn pwrpas y Rhaglen, o ran codi hyder a chynnig cefnogaeth adeiladol i'r prosesau asesu, safoni a chymedroli, ac er bod y Rhaglen yn ei hun yn ymddangos yn ddigon rhesymol ei gofynion, y gwirionedd yw bod sgil-effeithiau anfwriadol wedi achosi llwyth gwaith a straen ychwanegol, sylweddol di-angen.


### Prif bryderon 2015-16

Mae rhai elfennau o'r gwaith asesu, safoni a chymedroli yn statudol o fewn **Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Cymedroli Trefniadau Asesu ar gyfer yr Ail Gyfnod Allweddol a'r Trydydd Cyfnod Allweddol) (Cymru) 2015** (y Gorchymyn).

Mae manylion pellach yn cael eu rhestru yn y ddogfen ganllaw **Trefniadau Asesu Statudol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a diwedd Cyfnodau Allweddol 2 a 3** (Llywodraeth Cymru, Tachwedd 2015).

Mae elfennau eraill nad ydynt yn statudol, ond sy'n rhan o'r Rhaglen wirio/dilysu allanol (y Rhaglen).

Roedd y cyfarwyddiadau gafodd eu rhoi i ysgolion mewn rhai ardaloedd yn mynd ymhell y tu hwnt i'r hyn y mae'r Gorchymyn na'r Rhaglen ei hun yn ei fynnu.

Yn dilyn cais gan UCAC am eglurder pellach am y gofynion, paratowyd FAQs gan swyddogion Llywodraeth Cymru am y broses ac fe ddaeth yn glir bod anghysonderau sylweddol iawn rhwng y negeseuon lleol a'r manylion swyddogol gan Lywodraeth Cymru.

Mae'n ymddangos mai ar y lefel rhanbarthol, neu leol hyd yn oed y mae nifer o'r gofynion afresymol wedi codi.

Mae hynny'n codi cwestiynau am natur, safon a chynnwys y cyfathrebu rhwng y consortia a'r ymgynghorwyr her, yr Awdurdodau Lleol a'r athrawon yn yr ysgolion.

Dyma'r prif feysydd ble fu anghysondeb ac felly gofynion afresymol:

- **tystiolaeth o waith dysgwyr ar gyfer y cyfarfodydd cymedroli clwstwr:** dywedwyd y byddai'n rhaid darparu 9 darn o waith ar gyfer

bob disgybl (gofynnwyd am 6 sampl ar gyfer Mathemateg a Gwyddoniaeth y flwyddyn cynt); ond yn ôl Llywodraeth Cymru nid oes nifer penodol o dasgau wedi'i bennu

- **tystiolaeth o waith dysgwyr ar gyfer ymweliadau ag ysgolion:** dywedwyd wrth ysgolion y byddai gan wirwyr allanol yr hawl i ofyn am gael gweld *portffolios* ychwanegol at y rhai a baratowyd ar gyfer y cyfarfodydd clwstwr (ac felly'n rhoi'r argraff bod angen paratoi portffolio ar gyfer bob dysgwr), yn ogystal â recordiadau/fideos o waith llafar; ond yn ôl Llywodraeth Cymru, dim ond *gwaith arferol hyd at 3 dysgwr ychwanegol* fyddai modd gofyn i gael gweld
- **lefel y manylder gofynnol, a deunyddiau enghreifftiol:** bu camarwain sylweddol ynghylch lefel manylder y sylwadau oedd eu hangen ar waith y disgyblion; cyflwynwyd portffolio sampl mewn Mathemateg oedd yn 100 tudalen gan greu'r argraff bod disgwyl i ddogfen yr ysgol fod yr un mor swmpus a manwl
- **gorbwyslais ar fformat penodol:** clywsom am ysgol ble roedd y portffolios wedi cael eu cymeradwyo y flwyddyn cynt, ond eleni barnwyd bod angen eu newid am nad oedd yn dilyn y fformat cyfredol 'delfrydol' - er nad oedd y 'dehongliadau' wedi newid
- **gofyniad i gymedroli fel clwstwr yn y Cyfnod Sylfaen:** awgrymwyd wrth ysgolion bod hyn yn ofyniad statudol, er bod y ddogfennaeth berthnasol yn gwbl glir nad dyna yw'r sefyllfa; yn wir, dim ond arfer da fyddai safoni mewnol hyd yn oed
- **gofyniad i sganio gwaith a chreu hyperdolenni ar gyfer bob enghraifft - ac i gyflwyno ar bapur hefyd:** treuliwyd oriau maith yn creu hyperdolenni i ddarnau penodol o waith dysgwyr; gofynnwyd am y gyflwyno'r gwaith hyn ar bapur hefyd, gyda post-it notes ar y mannau perthnasol; cyflwynwyd y gofyniad hwn fel un gorfodol (rhoddwyd enghraifft o un sampl mewn un pwnc yn cymryd 7 awr i gwblhau)
- **gofyniad i uwchlwytho'r gwaith i gyd:** bu athrawon yn ceisio uwchlwytho'r portffolios i gyd a hynny yn sgil problemau technegol sylweddol; cyflwynwyd y gofyniad i gyflwyno'r gwaith yn electronaidd fel un gorfodol
- **Gofyniad i greu log o brosesau safoni/cymedroli mewnol:** gofyniad ychwanegol biwrocrataidd oedd hwn, ond gan roi'r argraff o fod yn ofyniad gorfodol

Rydym yn derbyn bod y rhan fwyaf o'r uchod yn broblemau ynghylch eglurder a chysondeb negeseuon, a diffyg cyfathrebu effeithiol. Fodd bynnag, rhag ceisio sicrhau gwell prosesau cyfathrebu ar gyfer blynyddoedd i ddod.

Yn ogystal, mae rhai pryderon ynghylch y broses ei hun:

- **amseriad y broses (1):** yn enwedig yn y sector uwchradd, mae'r amseriad yn taro gyda chyfnod eithriadol o brysur o ran asesiadau dan reolaeth ac arholiadau llafar ar gyfer cymwysterau Cyfnod Allweddol 4 a 5
- **amseriad y broses (2):** mae gofyn cwblhau popeth erbyn y cyfarfod clwstwr sy'n bell o'r dyddiad pan gyflwynir lefelau asesiadau athrawon fel arfer
- **pwysau ychwanegol ar Adrannau Cymraeg mewn ysgolion dwy ffrwd:** gan fod rhaid iddynt baratoi portffolios Iaith Gyntaf ac Ail Iaith
- **cymedroli 4 pwnc yn flynyddol yn CA2**: mae'r gofyniad statudol hwn yn creu llwyth gwaith

diangen; mae hyn yn arbennig o drwm mewn ysgolion cynradd llai, ble mae'r baich cyfan yn cwympo ar ysgwyddau un athro; gellid dadlau bod gwneud hyn bob yn ail flwyddyn yn fwy na derbyniol

- **diffiniadau lefelau:** mae diffiniadau gwahanol awdurdodau addysg o'r lefelau yn amrywio yn fawr ar draws Cymru; mae angen canllawiau pendant a manwl er mwyn sicrhau cysondeb
- **pwysau annerbyniol i newid lefelau:** mae athrawon a phenaethiaid yn cwyno am y pwyso sydd arnynt i newid lefelau a deilliannau, a hynny oherwydd y bygythiad y bydd canlyniadau'r ysgol neu'r Awdurdod Lleol yn ymddangos yn rhy isel, ac yn arwain at ddyfarniadau anffafriol, er enghraifft o ran Categoreiddio Ysgolion
- **diffyg adborth:** mae ysgolion yn teimlo nad ydynt yn cael adborth ar lefel ysgol/clwstwr unigol er mwyn gwella'u systemau; nid ydynt hyd yn oed yn derbyn adborth o unrhyw fath (adroddiad cyffredinol) o fewn ffiniau amser a fyddai'n ddefnyddiol iddynt o ran gwella – er bod y terfynau amser o ran eu gwaith nhw yn gwbl gaeth

Cymrwn y cyfle i ofyn onid oes gwrthdaro buddiannau yn y broses gan mai'r consortia rhanbarthol yw'r aelodau o'r 'Bartneriaeth' sy'n rhedeg y broses wirio allanol genedlaethol - yn craffu ar y gwaith safoni a chymedroli, sy'n cael ei drefnu a'i yrru'n bennaf gan y consortia rhanbarthol eu hunain.